CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION GORFFENNAF 17, 2018

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Gorffennaf 17, 2018 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Gerallt Griffith Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol yn enwedig i Gerallt Griffith.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 19, 2018

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 19, 2018

Eitem 10.d. Llythyr ateb (27/6/2018) oddi wrth Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd sylw yn cael ei roi i'r fatras.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/6/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Oherwydd GDR (Diogelu Data) mae angen rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw newid yn ein manylion fel unigolyn cyswllt, cyfeiriad, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gael eu gwybodaeth.

b. Llythyr (28/6/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd Coed Mwsoglog, Bryncoerdifor yn cael ei ailwynebu.

c. Llythyr (2/7/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Sadwrn, Medi 29, 2018 ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd am 9.30yb. Yn bresennol bydd Alun Davies AC (Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Cyng Debbie Wilcox (Arweinydd WLGA) a dau aelod o Panel Adolygu Annibynnol.

ch. Llythyr (2/7/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn hysbysu swydd Swyddog Datblygu Gogledd Cymru. Angen ceisiadau cyn Gorffennaf 16, 2018.

d. Llythyr (27/6/2018) oddi wrth Swyddog Datblygu Plant, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent angen gwarchodwyr plant. Amgáu mae posteri i'w harddangos ar hysbysfwrdd.

Rhoddwyd y posteri ar hysbysfwrdd Neuadd Rhydymain.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (26/6/2018 yn rhoi gwybod bydd cyfarfod gyda chynghorau cymuned a thref dydd Iau, Hydref 4, 2018 am 6.30yh yn Plas Tan y Bwlch. Yr agenda fydd: diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol, cynllun Partneriaeth y Parc, prosiect LIFE, ymateb i Geisiadau Cynllunio.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Medi.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod bydd dogfennau'r Cyngor ar gael ar 20/6/2018.

O'r adroddiad yr ymchwiliad roedd:

a. Methiant i sicrhau bod asesiad risg wedi cael ei adolygu'n rheolaidd.
Penderfynwyd adolygu'r asesiad risg yn flynyddol.

b. Methiant i gadarnhau bod y gweithiwr wedi derbyn termau ac amodau clir o'i gyflogaeth oherwydd diffyg cytundeb gyflogaeth.
Gwnaethpwyd ymoliadau gydag Un Llais Cymru ar y mater ond ni chafwyd ateb ganddynt.
Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd.

Roedd angen rhoi sylw i'r uchod a chymryd camau priodol i'w lliniaru.

Anfonwyd y dogfennau ymlaen i BDO ar 23/6/2018.

b. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2017 - Mawrth 31, 2018:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £251.53.

Penderfynwyd talu'r swm.

c. Llythyr (29/6/2018) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion cyflog newydd y Clerc.
Taliad misol i'r Clerc: £97.08 (yn chwarterol £291.24)
Taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £24.20 (yn chwarterol £72.60).
Cyfanswm: 12 (£97.08 + £24.20) = £1,455.36 y flwyddyn. (Gweler

Cofnodion Mai 15, 2018 Eitem e.)

Bydd y taliadau yn dechrau ym mis Hydref, 2018.

d. Llythyr (8/7/2018) oddi wrth Cymdeithas Y Dydd. Maent angen gymorth ariannol.

Penderfynwyd rhoi rhodd o £50.00 iddynt wedi iddynt sefydlu papur newydd Y Dydd. Mae'r Y Dydd nawr wedi ei sefydlu. Gweler Cofnodion Hydref 10, 2017.

Maent hefyd yn gofyn am gymorth ariannol o £50 am y flwyddyn ariannol bresennol.

Penderfynwyd talu'r £50 a dod y llythyr i fis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

Penderfynwyd hefyd rhoi gwybod i Gymdeithas Y Dydd iddynt ddefnyddio cofnodion y Cyngor fel newyddion i'r papur newydd.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin 2018: £1,137.10.

e. Balans yn y banc ar 29 Mehefin 2018: £5,399.82.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Mae symud biniau halen dal mewn llaw.

b. Mae gwaith yn cael ei wneud ar Ffordd Lôn Lefel.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

a. Mae angen tocio coed ar gyffordd A494 i Brithdir.

b. Mae arwydd ar waelod rhiw Tyn y Buarth ar ffordd Llanfachreth – Ganllwyd angen ei thrwsio.
1

Llofnod: Dyddiad: